

Newid yn yr hinsawdd



Teithio i'r Siopau

Mae'r ffordd byddwn yn prynu bwyd hefyd yn ychwanegu at filltiroedd bwyd. Mae siopwyr nawr yn teithio'n bellach i brynu eu bwyd nag yn y gorffennol.

Rydym hefyd yn teithio'n amlach mewn car i gyrraedd yno. Yn wir, bob blwyddyn mae pob oedolyn yn y DU yn teithio rhyw 135 milltir mewn car i wneud eu siopa bwyd.

Mae'n well gwneud un daith siopa fawr na nifer o rai bach. Mae hefyd yn well siopa mewn siopau lleol na mynd i'r archfarchnadoedd mawr sydd ar gyrion y dre.



SIOPAU GWYDDONIAETH CYMRU
SCIENCE • SHOPS • WALES
scishopw@glam.ac.uk • 0845 • 841 • 3545
<http://www.science-shops-wales.org.uk>

Bwyd gwastraff

Mae hefyd rhaid inni feddwl am gael gwared ar fwyd gwastraff pan fyddwn yn cyfrifo milltiroedd bwyd. Mae'r rhan fwyaf o gartrefi yn taflu i ffwrdd mwy na thri cilogram o fwyd ac un deg pedwar cilogram o ddefnydd pacio bwyd pob wythnos.

Mae rhai bwydydd o dramor, megis ffrwythau meddal, yn aml angen mwy o ddefnydd pacio i'w diogelu ar y daith. Rhaid hefyd mynd â bwyd a defnydd pacio gwastraff at safleoedd tirlenwi i gael eu trin.



Mwy o wybodaeth?

Cysylltwch â'r tîm yn Siopau Gwyddoniaeth Cymru. Gallwch ein ffônio ar 0845 841 3545, neu ebostio scishopw@glam.ac.uk

Cyfeiriad ein gwefan yw www.scienceshops-wales.org.uk

University of Wales, Newport

Prifysgol Cymru, Casnewydd



MILLTIROEDD BWYD

Tuag At Ddyfodol Cynaliadwy

SIOPAU GWYDDONIAETH CYMRU
SCIENCE • SHOPS • WALES
scishopw@glam.ac.uk • 0845 • 841 • 3545
<http://www.science-shops-wales.org.uk>

Beth yw Milltiroedd Bwyd?

Ffordd yw 'milltiroedd bwyd' o siarad am faint o danwydd mae ei angen i symud bwyd o'r fferm i ffwrdd eich cegin. Po bellaf mae'r bwyd yn teithio, mwyaf o betrol neu diesel mae'n ei gymryd i gyrraedd yno. Pan fydd awyrennau, ceir neu lorïau yn llosgi tanwydd, maent yn rhyddhau carbon deuocsid. Mae gormodedd o'r nwy hwn yn yr awyr yn achosi i'r Ddaear gynhesu, ac yn peryglu bywydau pobl. Gelwir y problem hwn yn 'gynhesu byd-eang'.





Diolch i www.schneps.org.uk

Mae bwyd sydd â nifer uchel o filltiroedd bwyd yn achosi mwy o gynhesu byd-eang nag un sydd ag ychydig yn unig o filltiroedd bwyd.

Pam mae bwyd yn teithio mor bell?

Yn y gorffennol, byddai pobl yn tyfu, yn gwerthu ac yn bwyta eu bwyd yn lleol. Heddiw, bydd llawer o'n bwyd yn teithio cannoedd o filltiroedd cyn cyrraedd y siopau.



Diolch i www.consumer.org.nz

Dyfodol Cynaliadwy Newid hinsawdd

Mae llaeth o wartheg Nyfnaint yn gallu dod i ben ei daith mewn archfarchnad yn Dumfries. Gall tatws o Norfolk gael eu gwerthu yn Northumberland.

Weithiau bydd bwyd yn teithio cannoedd o filltiroedd i orffen yn ei unfan. Gall llaeth o'r fferm drws nesaf deithio i ffatri poteli dinesig cyn dychwelyd i'ch siop leol.



Diolch i www.sustainableworld.co.uk

Daw llawer mwy o fwyd o dramor nag yn y gorffennol. Daw'r cyfan bron (95%) o'n ffrwythau o dramor. Daw hanner y llysiau y byddwn yn eu bwyta yn y DU o wledydd eraill.

Daeth dwywaith gymaint o fwyd y DU mewn awyren yn y 1990au nag yn y 1980au. Rydym yn disgwyl y bydd mwy byth yn dod mewn awyren yn y 2000au.



University of Wales, Newport

Prifysgol Cymru, Casnewydd

SIOPAU GWYDDONIAETH CYMRU
SCIENCE • SHOPS • WALES
scishopw@glam.ac.uk • 0845 • 841 • 3545
<http://www.science shops wales.org.uk>



www.worldtr.com

Y ffordd mae bwyd yn teithio

Mae'r ffordd mae bwyd yn teithio hefyd yn bwysig. Er enghraifft, mae'n defnyddio llai o danwydd pan fydd bwyd yn teithio ffordd bell mewn cwch na mewn awyren.

Mae hefyd yn well i symud llawer o fwyd ar yr un pryd. Bydd llond un lori fawr yn defnyddio llai o danwydd na llond nifer o geir bach.



Diolch i http://www.walespost.com

SIOPAU GWYDDONIAETH CYMRU
SCIENCE • SHOPS • WALES
scishopw@glam.ac.uk • 0845 • 841 • 3545
<http://www.science shops wales.org.uk>